

# Gweithdrefn - Apelau Gwerthuso Swyddi f2.0





# **ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU**

## **Gweithwyr:**

Maent yn gyfrifol am gwblhau dogfennaeth Apêl Gwerthuso Swyddi, a chytuno ar y cynnwys gyda'u Rheolwr Atebol. Bydd cyngor a chefnogaeth ar gael gan Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo.

## **Rheolwyr Atebol:**


Maent yn gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth yn y dogfennau Apeliadau Gwerthuso Swyddi yn adlewyrchu'n gywir ddyletswyddau'r apelydd a darparu gwybodaeth ategol yn unol â'r ffurflen apelio sy'n ymwneud â gofynion y swydd ac nid y person sy'n ymgymryd â'r rôl. Bydd cyngor a chefnogaeth ar gael gan Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo.

## **Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo:**

Mae'n gyfrifol am wirio ansawdd y ddogfennaeth apêl, coladu deunydd perthnasol, trefnu Panel Apêl a darparu gwasanaeth cynghori i banel Apeliadau Gwerthuso Swyddi lle bydd y rhesymau dros apelio yn cael eu hystyried.

## **Panel Dilysu/ Apelio Gwerthuso Swyddi:**

Yn gyfrifol am ystyried unrhyw gais a gyflwynir i'r panel ei gymeradwyo, gan sicrhau cysondeb a thegwch yn ei weithrediad ledled Cyngor Sir Ddinbych.



# 1. Beth yw Gwerthusiad Swydd?

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau bod eu gweithwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyson ac yn cydymffurfio â gofynion cyflog cyfartal.

Pwrpas y gwerthusiad swydd yw darparu dull dadansoddol, trefnus a chyson i ddiffinio gwerth cymharol swyddi yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Mae'r broses cynnal gwerthuso swyddi yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fawr (GLPC) er mwyn sicrhau bod lle mae gwaith yr un fath neu'n natur gyffredinol debyg bydd yr holl weithwyr yn cael eu trin yn gyfartal a bydd gwahaniaethau tâl yn gyfiawnadwy ar sail ffactor materol ddilys ac nid yw'n gwahaniaethu ar sail anghyfreithlon.

Mae'r broses hon yn sicrhau bod gan y cyngor drefniant teg ac effeithiol i ymdrin ag apeliadau yn erbyn gwerthusiadau sy'n codi o gynllun gwerthuso swyddi GLPC.

## 2. Pwy all Apelio?

Mae'r Broses Apeliadau Gwerthuso Swyddi ar gael i bob gweithiwr o dan y telerau a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt yn ystod trafodaethau Statws Sengl Cyngor Sir Ddinbych yn 2008. Bydd y broses Apeliadau yn caniatáu gweithiwr i anghytuno gyda chanlyniad y broses gwerthuso swyddi os ydynt yn dymuno hynny.

## 3. Egwyddorion Sylfaenol Apeliadau Gwerthuso Swyddi

- Mae'r apêl (a'r broses gyffredinol) yn ymwneud â'r swydd ac nid yr unigolyn sy'n ei chyflawni.
- O ganlyniad i apêl, gall radd godi, aros yr un fath, neu mewn rhai amgylchiadau, ostwng.
- Mae'r Broses Apeliadau'n cynnwys dau gam. Bydd y cam cyntaf yn nodi seiliau'r apêl yn y Panel Cynnal Gwerthuso Swyddi misol; bydd y Panel Apêl ail gam yn cynnwys Pennaeth Gwasanaeth, a fydd yn cadeirio'r, 1x Rheolwr ac 1x Cynrychiolwr Undebau Llafur a'r Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo.
- Ni all y bobl ar Banel yr Apêl fod ag unrhyw gysylltiad uniongyrchol â rheolwr atebol (i fyny neu i lawr) gyda'r apelyddion. Ni allant fod â rhan mewn llofnodi dogfennaeth yr apeliadau. Byddant hefyd yn datgan unrhyw gysylltiadau gyda swyddi lle mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol/anuniongyrchol.
- Mae'n rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth fod o wasanaeth gwahanol. Ni allant fod â rhan mewn llofnodi dogfennaeth yr apeliadau. Byddant hefyd yn datgan unrhyw gysylltiadau gyda swyddi lle mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol/anuniongyrchol.

- Lle bydd swydd yn newydd, a all fod o ganlyniad i ailstrwythuro, cynnal neu swydd newydd, ni chlywir yr apeliadau yn ystod 6 mis cyntaf y swydd.

## **4. Rhesymau Dros Apelio**

Bydd gweithwyr yn cael 3 mis o'r dyddiad y maent yn cael eu hysbysiad canlyniad gwerthuso lle byddant yn cael cyfle i gyflwyno eu hapêl, oni bai bod swydd yn newydd, gallai hyn fod o ganlyniad i ailstrwythuro, cynnal a chadw neu swydd newydd, ni fydd yr apeliadau yn cael eu clywed yn ystod 6 mis cyntaf y swydd

Y seiliau dros apelio yw:-

- Nid yw gofynion y swydd yn cael eu hadlewyrchu yn y gwerthusiad fel y nodir yn yr Holiadur Gwerthuso Swydd neu Swydd Ddisgrifiad. Rhaid rhoi rhesymau; nid yw datgan hyn yn unig yn ddigon.
- Ni weithredwyd y broses werthuso'n gywir. Rhaid rhoi rhesymau; nid yw datgan hyn yn unig yn ddigon.
- Mae swydd sy'n gymharol debyg wedi cael gradd wahanol. Rhaid nodi'r swyddi sy'n cael eu cymharu .

## **5. Beth os oes mwy nag un person yn gwneud swydd neu ei bod yn swydd gyffredinol?**

Os yw'r apêl am swydd lle ceir mwy nag un deilydd swydd neu swydd ddisgrifiad generig, rhaid i holl ddeiliaid y swydd lofnodi a chytuno ar y ddogfennaeth apêl. Pe bai'r apêl yn cyrraedd Cam 2, gall 3 chynrychiolydd gweithiwr fynd i Wrandawriad Apêl Cam 2 a gellir dod gydag 1 Cynrychiolydd Undeb Llafur. Bydd canlyniad apêl yn berthnasol i'r holl weithwyr a ymdrinnir gan y swydd ddisgrifiad generig neu sydd â mwy nag un deilydd swydd.

Os yw deilydd y swydd yn rhan o grŵp sydd â mwy nag un deilydd a'u bod yn teimlo nad ydyw'r swydd ddisgrifiad generig yn adlewyrchu eu dyletswyddau, neu nad ydyw eu swydd unigol wedi'i hystyried, yna dylid trafod yr apêl hon gyda'u rheolwr atebol. Os oedd y rheolwr yn cytuno â hyn yna dylid datblygu swydd ddisgrifiad newydd a'i chyflwyno yn unol â Phroses Cynnal Gwerthusiad Swyddi.

Os nad ydyw'r rheolwr atebol yn cytuno gyda'r gweithiwr yna gall y gweithiwr godi hyn gyda'r rheolwr sydd ar y lefel nesaf er mwyn ei ddatrys.

## 6. Sut ydw i'n Apelio'r Canlyniad Gwerthuso Swydd?

Rhaid cyflwyno pob apêl mewn ysgrifen ar y [Ffurflen Apelio Gwerthuso Swyddi](#), gan gynnwys swydd ddisgrifiad diweddar a manyleb person a [Holiadur Gwerthuso Swydd](#) wedi'i gwblhau i'r rheolwr atebol yn manylu:

- Y sail dros yr apêl gyda rhesymau
- A fyddent yn gofyn am rywun i ddod gyda nhw pe bai'r apêl yn cyrraedd Cam 2.
- Y canlyniad y mae'r apelydd yn ei geisio.

Dylai'r gweithiwr ddangos ar ei ffurflen apeliadau'r cyfrifoldebau sydd ganddynt yn eu swyddogaeth sy'n diwallu meini prawf lefel ffactor y Cynllun GLPC. Dylai'r gweithiwr ddarparu cymaint o fanylion â phosibl gan gynnwys rhesymau a thystiolaeth lle maent ar gael.

Dylai'r rheolwr sydd â rhan oruchwylio sylweddol gyda'r apelydd ddarllen dogfennaeth yr apeliadau, gwneud sylwadau a llofnodi. O ran sylwadau penodol, gall y canlynol fod yn ddefnyddiol i reolwyr:

- Ystyried y cywirdeb ffeithiol - a yw datganiad yr apelydd yn gywir, a ydynt yn cwblhau tasgau yn rheolaidd fel sydd wedi'i fanylu?
- A yw'r swydd wedi newid llawer ers y gwerthusiad?
- Rhowch sylwadau ar y swydd, nid gallu'r unigolyn i wneud y swydd.
- Peidiwch â rhoi sylwadau os ydych yn credu bod modd cyfiawnhau'r apêl ai peidio.

Mae'r Rheolwr yna'n gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i lenwi'r ffurflen apeliadau.

Nodwch efallai y bydd gofyn i reolwyr fynd i wrandawriad y panel apeliadau. Ni fydd gofyn iddynt wneud cyflwyniad ffurfiol ar ran yr apelydd ond bydd disgwyl iddynt ateb cwestiynau ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r apelydd.

Unwaith y bydd y ffurflen wedi'i chwblhau gan yr apelydd, y rheolwr ac wedi'i lofnodi gan y Pennaeth Gwasanaeth, dychwelwch y ffurflen i Cyswllt AD, i sylw'r Arbenigwr Cyflog a Gwobrwyo.

## 7. Cam 1 — Nodi'r Seiliau

Bydd y ddogfennaeth yn mynd at Banel Dilysu Gwerthusiad Swyddi, sy'n cynnwys Arbenigwr Cyflog a Gwobrwyo, a Chynrychiolydd Undebau Llafur o o leiaf dau o'r Undebau Llafur cydnabyddedig, a Chynrychiolydd Rheoli hyfforddedig o o leiaf dau o'r Gwasanaethau.

Bydd y Panel Dilysu'n ystyried yr holl ddogfennaeth ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gan yr apelydd. Byddant yn ystyried un neu fwy o agweddau ar y gwerthusiad, os bydd angen mynd yn ôl at yr agweddau hyn, byddant yn gofyn i'r Arbenigwr Cyflog a Gwobrwyo i ddarparu ailwerthusiad o'r swydd o'r feddalwedd GLPC.

Yna byddant yn gwneud un o'r argymhellion canlynol, gyda chymorth y gwerthusiad newydd lle bo'n briodol, o fewn unplygrwydd y cynllun gwerthuso:

- a) Nid oes unrhyw sail dros yr apêl.
- b) Mae rhai seiliau dros yr apêl, gyda graddfa wedi'i hargymell os ydyw'n briodol.
- c) Mae rhai seiliau dros yr apêl, gyda graddfa wedi'i hargymell os ydyw'n briodol. Er enghraifft, os oes yw'r person gydag apêl ar bob un o'r 3 sail neu ar fwy nag un lefel ffactor, gall un neu fwy ohonynt fod yn ddilys, ond nid erail.

Yn achos a) bydd yr Arbenigwr Cyflog a Gwobrwyo yn ysgrifennu at yr apelydd a'r rheolwr yn esbonio bod y cais wedi'i wrthod a'r rhesymau dros hynny.

Ar gyfer b) ac c) bydd yr apêl yn symud ymlaen i Gam 2 ar y ffactorau hynny a nodir yn unig. Bydd yr Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo yn ysgrifennu at yr apelydd a'r rheolwr i gadarnhau'r argymhellion a wneir gan y Panel Dilysu a manylion Gwrandawriad Apêl Cam 2. Gofynnir i'r apelydd os ydynt yn dymuno i'r Panel Apêl fynd yn ei flaen gyda'r ddogfennaeth neu gyda gwrandawriad yn bersonol. Bydd gan yr apelydd 10 diwrnod gwaith i ymateb.

Os nad oes consensws ar yr argymhellion yna bydd y dogfennau gwerthuso yn symud ymlaen i Gam 2.



## 8. Cam 2 – Y Panel Apêl yn Ystyried y Seiliau

Bydd Apeliadau Cam 2 yn cael eu clywed gan banel cwbl hyfforddedig o 3 sydd fel arfer yn cynnwys:

- 1 Pennaeth Gwasanaeth, a fydd yn cadeirio'r panel
- 1 Cynrychiolydd Undeb Llafur
- 1 Cynrychiolydd Rheoli Hyfforddedig

Bydd yr Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo hefyd yn bresennol i ddarparu cyngor ac arweiniad, ond ni fyddant yn cael rhoi pleidlais derfynol ar y panel.

Mewn achosion o wrandawriad, fe ofynnir i'r apelydd esbonio hefyd pa wybodaeth ychwanegol a all fod ganddynt i'r panel ei hystyried nad oedd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad gwreiddiol. Ni fydd angen rhagor o wybodaeth yng Ngham 2 ar gyfer y lefelau ffactor hynny a ystyrir nad oes iddynt unrhyw sail a fydd wedi'i fanylu yn yr atodiad a anfonwyd gan yr Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo ar ôl Cam 1.

Os bydd yr apelydd wedi dewis mynychu gwrandawriad gall ef/hi ddod â chynrychiolydd Undeb Llafur neu gyd-weithiwr gyda nhw, ni fydd yr Apêl yn cael ei ohirio'n ormodol tra bod hyn yn cael ei drefnu

Gall y Panel Apêl ofyn am wybodaeth bellach gan ddeilydd y swydd neu eu rheolwr (naill ai mewn ysgrifen neu'n bersonol), a gallant ohirio gwrandawriad yr apêl os oes angen, ond ni fydd gormod o oedi gyda gwrandawriad a chanlyniad yr apêl.

Os yw'r apelydd wedi dewis ystyriaeth heb wrandawriad, bydd y Panel Apêl yn ystyried dogfennaeth yr apêl ac yn gwneud eu penderfyniad yn seiliedig ar yr argymhelliad gan y Panel Dilysu. Bydd Cadeirydd y Panel Apêl yn arwain gwrandawriad yr Apêl. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y panel yn clywed yr holl wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniad.

## 9. Canlyniadau

Os yw'r Panel Apêl yn ystyried bod unrhyw un o'r 3 sail dros apelio'n ddilys yna byddant naill ai'n gwneud eu penderfyniad yn seiliedig ar yr argymhellion o Gam 1, neu os oes tystiolaeth newydd wedi dod i'r fei, byddant yn gofyn i'r Arbenigwr Cyflog a Gwobrwyo i ddiwygio'r gwerthusiad drwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadur GLPC ac yna gwneud eu penderfyniad terfynol. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd y swydd yn cael graddfa uwch. Gall sgôr y gwerthusiad fod yn uwch, ond fe all y swydd aros ar yr un raddfa. Gall y sgôr aros yr un fath, neu mewn achosion eithriadol, fe allant ostwng.

Bydd penderfyniad Panel yr Apêl yn cael ei roi mewn ysgrifen i'r unigolyn fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith yn nodi'r penderfyniad. Ni fydd hawl pellach i apelio. Mae penderfyniad Panel yr Apêl yn derfynol ac yn gyfrwymol. Bydd newidiadau graddfa cysylltiedig yn gymwys o ddyddiad cofrestru'r apêl neu o ddyddiad a gytunwyd, a bydd yn cael ei gadarnhau i'r Arbenigwr Cyflog a Gwobrwyo gan reolwr yr apelydd.

## Cwestiynau Cyffredin

### **Pryd allaf gyflwyno apêl?**

Bydd gennych 3 mis o'r dyddiad y byddwch yn derbyn eich hysbysiad o ganlyniadau'r gwerthusiad i gyflwyno eich apêl. Efallai y caiff hyn ei hepgor yn ystod y cyfnod gweithredu, lle bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhoi yn yr achos hwn. Bydd yn eglur o'r dyddiadau erbyn pryd y dylid cyflwyno'r apêl.

### **Cefais fy mhenodi i fy swydd newydd 3 mis yn ôl, ond nid wyf yn meddwl bod y swydd yn cael ei hadlewyrchu'n gywir gyda'r raddfa rwyf yn ei derbyn, a allaf apelio?**

Gallwch apelio yn erbyn gwerthusiad y swydd newydd ar ôl i chi fod yn y swydd am 6 mis. Ar ôl 6 mis byddech yn apelio yn unol â'r broses a fanylir uchod.

### **A allaf wneud apêl ar y cyd yn erbyn gwerthusiad swydd gyda fy nghydweithwyr?**

Os ydych chi a'ch cydweithwyr yn gwneud yr un swydd, a bod pob un ohonoch eisiau apelio yn erbyn eich canlyniad, gallwch ddewis cyflwyno ffurflen apelïadau ar y cyd. Mae'r ffurflen gais yr un peth i apelïadau unigol a grŵp.

### **A yw'r canlyniad yn golygu y byddaf yn cael fy nyfarnu gyda graddfa uwch?**

Na, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd y swydd yn cael graddfa uwch. Gall sgôr y gwerthusiad fod yn uwch, ond fe all y swydd aros ar yr un raddfa. Gall y sgôr aros yr un fath, neu mewn achosion eithriadol, fe allai ostwng.

### **Pryd fyddaf yn cael gwybod am y canlyniad?**

Os yw'r Panel Apêl yn ystyried bod unrhyw un o'r 3 sail dros apelio'n ddilys yna byddant naill ai'n gwneud eu penderfyniad yn seiliedig ar yr argymhellion sydd ganddynt yn barod, neu os oes tystiolaeth newydd yn dod i'r fei, byddant yn dod i'w penderfyniad terfynol.

Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn cael ei roi mewn ysgrifen i'r unigolyn fel arfer o fewn 15 diwrnod gwaith yn nodi'r penderfyniad gyda rhesymau. Os na allant gwrdd â'r dyddiad hwn, byddant yn rhoi gwybod i'r apelydd. Ni fydd hawl pellach i apelio.

### **Beth os nad yw fy Rheolwr yn cytuno â'r apêl?**

**Os nad ydyw'r rheolwr atebol yn cytuno gyda'r gweithiwr yna gall y gweithiwr godi hyn gyda'r rheolwr sydd ar y lefel nesaf er mwyn ei ddatrys.**